

Beth yw Masnachu Pobl?

Rhaid cael pob un o'r tri isod er mwyn bodloni'r diffiniad o fasnachu pobl, oni bai bod yr unigolyn dan sylw o dan 18 oed, sy'n golygu bod 'y dull' yn amherthnasol.

Y weithred (beth sy'n cael ei wneud)

Recriwtio, cludo, trosglwyddo, llochesu neu dderbyn

Y dull (sut mae'n cael ei wneud)

Bygwth neu ddefnyddio grym, gorfodaeth, cipio, twyll, dichell, camddefnyddio pŵer neu freguster, neu roi taliadau neu fuddion i berson sy'n rheoli'r dioddefwr.

Y diben (pam mae'n cael ei wneud)

At ddiben camfanteisio, sy'n cynnwys camfanteisio trwy buteinio pobl eraill, camfanteisio rhywiol, llafur dan orfod, caethwasiaeth neu arferion tebyg, a thynnu organau neu feinwoedd.

Caiff troseddau Masnachu Pobl eu cyfrif yn droseddau 'ffordd o fyw', felly dylid ystyried y Ddeddf Amddiffyn Plant. Mae'n bosib hefyd y bydd y rhai sydd dan amheuaeth mewn achos troseddol wedi dioddef eu hunain trwy gael eu masnachu.

GOFALU AM DDIODDEFWYR:

Caiff llawer o ddiodeffwyr eu cyfeirio at yr heddlu gan Gyrrff Anllywodraethol (NGO) megis BAWSO a Llwybrau Newydd. Defnyddiwch y cyrrff hyn i gynnal perthynas o ymddiriedaeth - gofynnwch am fanylion unrhyw 'gofnod cyntaf' sydd efallai wedi'i gael drwy'r PVoT. Cofiwch gydymffurfio â **Llwybr Ymateb Goroeswyr Cymru** sy'n cynnwys archwiliad meddygol a'r broses MARAC. Os oes amheuaeth o ddiffyg maeth, gofynnwch am gyngor ar fwydo.

BAWSO (linell gymorth 24 awr)

Ffôn: 0800 731 8147

Llwybrau Newydd

Ffôn: 01685 379 310

LLEOLIAD/SAFLE:

Yr amser, y dyddiad a'r union lleoliad lle cafodd y dioddefwr/achwynwr ei ddarganfod neu ei ddal. Ystyriwch a oes angen diogelu safle'r digwyddiad. A oes Dioddefwyr Posib Eraill (PVoT) yn y lleoliad neu yn y lleoliad y daethant ohono? Gwahanwch oedolion oddi wrth ei gilydd ond peidiwch â'u hynysu.

CYFWELIAD/COFNOD CYNTAF:

Dylai'r PVoT gael ei gyfweled trwy gyfweiliad Sicrhau'r Dystiolaeth Orau (ABE) gan staff hyfforddedig i ffwrdd o safle'r camfanteisio. Ni ddylai hyn atal trafodaeth gynnar â nhw i gael gwybodaeth gychwynnol. Cofiwch y gall gymryd peth amser i PVoT ddatgelu hanes y camfanteisio'n llawn, gan nad ydynt yn debygol o ymddiried yn yr awdurdodau a'r rhai sy'n cynnal y gyfraith. Gwnewch yn siŵr bod cynrychiolydd NGO / gweithiwr cymorth yn bresennol yn y cyfweiliad ABE.

CYFIEITHWYR:

Defnyddiwch gyfieithwyr annibynnol, profesiynol (WITS). Dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio oedolion priodol nad ydych yn gwybod pwy ydynt, oherwydd gallai person sy'n honni bod ganddo berthynas â PVoT fod yn camfanteisio amynt. Dylid defnyddio cyfieithwyr profesiynol o'r un rhyw â'r dioddefwr lle bo modd.


Y Dull Cyfeirio Cenedlaethol (NRM)

Meddyliwch am yr 'NRM' - chi yw'r 'Ymatebwr Cyntaf'. Mae cyfeirio at yr NRM yn orfodol ar gyfer PVoTs sy'n blant ac yn ddewisol i oedolion. Gofynnwch am help Gweithiwr Cymorth yr NGO perthnasol gyda'r broses.

Ydych chi'n siarad.....? Chwiliwch am ymateb i gael syniad o'r iaith

Affganeg (Pashto)	Aya ta pa pakhto khabarey kawalai shey?
Albaneg	A flisni shqip?
Bengaleg	Apni Bangla bolte paren?
Tsieineeg (Cantoneg)	Neih sikmhsik gong gwongdungwa?
Tsieineeg (Mandarin)	Ni huibuhui jiang guoyu
Tsieceg	Mluvite Czesky?
Ethiopiog (Amhareg)	Amarenya techelalleh (m) tech-iyallesh? (f)
Hwngareg	Beszél magyarul?
Latfieg	Vai Jus runajat latviski?
Lithwaneg	Ar kalbate lietuviskai?
Pwnjabi	Tuhanu Panjabi aundi he?
Pwyleg	Czy mowi pan/pani (m/f) po polsku?
Rwmaneg	Vorbiti romaneste?
Slofaceg	Viete po slovensky?

Canllaw ar Gaethwasiaeth Fodern i Ymateb-wyr Cyntaf yng Nghymru




Arwyddion Cyffredinol – nodweddion posibl pobl sydd wedi'u masnachu:

Ddim yn ymddiried yn phobl y tu allan i'w awdurdodau hamgylchedd agos Rhywun wedi bygwth eu trosglwyddo i'r awdurdodau Ofn datgelu eu statws eu bod wedi'u clymu gan ddyded Mewn sefyllfa o ddibyniaeth Yn dod o le sy'n adnabod, gan fod y rheini gan bobl eraill fasnachn pobl Hwyluswyr sydd wedi Cael eu darganfod talu am eu cludo ac maen'n rhaid iddynt eu had-dalu drwy weithio neu ddarparu gwasanaethau yn y Ddim yn gyfarwydd â'r Dim llawer o gysylltiad â'u teuluoedd na

Arwyddion Cyffredinol – nodweddion posibl pobl sydd wedi'u masnachu:

Ddim yn gwybod cyfeiried eu Byw mewn llely gwael neu cartref neu eu gwalth islaw'r safon Dim mynediad at ofal meddy- chol, maen nhw'n gadael i bobl eraill ateb ar eu rhan Ymddwyn fel petent wedi cymdeithasol Cael cyfarwyddyd gan rywun Cael eu gorfodi i weithio dan amodau perodol Cael ei dsgyblu drwy gosb Methu negodi amodau gwel- slymudadu'n cael eu rheoli thio Cael ychydig neu ddim tali Dioddef tra's neu fygythiadau Gweithio orau math dros gyfnodau hir Ddim yn cael dyddiau i ffwrdd hanwylaid

'Na' i gaethwasiaeth yng Nghymru



Os gwelwch chi rywbeth, rhanwch ef!

Mewn argyfwng: 999
Heb fod mewn argyfwng: 101
Crimestoppers: 0800 555111
Llinell gymorth gaethwasiaeth
Modern: 08000 121 700

If you see it, report it!

In an emergency: 999
Routine: 101
Crimestoppers: 0800 555111
Modern Slavery Helpline: 08000 121 700

cymru.gov.uk/gwrthgaethwasiaeth

wales.gov.uk/anti-slavery

Camfanteisio ar lafur

Yn aml bydd pobl sydd wedi'u masnachu er mwyn camfanteisio ar eu llafur yn gorfod gweithio mewn sectorau fel amaeth, adeiladu, adloniant, y diwydiant gwasanaethau a'r diwydiant gweithgynhyrchu (mewn 'slafdy/sweatshop').

Byw mewn grwpiau sy'n byw ac yn gweithio yn yr un lle
Byw mewn llefydd diraddiol ac anaddas, megis adeiladau amaethyddol neu ddiwydiannol
Wedi gwisgo'n anaddas i'r gwaith maent yn ei wneud: e.e. dim offer diogelwch neu ddillad cynnes
Ddim ond yn cael sbarion i'w bwyta
Dim mynediad at eu henillion
Diffyg hyfforddiant sylfaenol a thrwyddedau proffesiynol
Yn dioddef sarhad, cam-drin, bygythiadau neu ymosodiadau
Dim contract llafur
Gweithio oriau maith
Yn dibynnu ar eu cyflogwr am nifer o wasanaethau, gan gynnwys gwaith, cludiant a llety
Dim dewis o lety
Byth yn gadael y safle gwaith heb eu cyflogwr
Ddim yn cael symud yn rhydd
Gorfod cadw at fesurau diogelwch sy'n eu cadw ar safle'r gwaith
Cael eu disgyblu trwy ddirwy

Camfanteisio rhywiol - Nodweddion posib pobl sydd wedi'u masnachu at ddiben camfanteisio

Symud rhwng puteindai
Rhywun yn mynd gyda nhw i bob man
Tatws / marciau yn dynodi "perchnogaeth"
Dim arian eu hunain
Methu dangos unrhyw ddogfennau adnabod
Gweithio oriau hir neu'n cael ychydig iawn o ddyddiau i ffwrdd
Cysgu ble maen nhw'n gweithio / Ychydig iawn o ddillad ganddynt
Byw neu weithio mewn grŵp - weithiau gyda menywod eraill sydd ddim yn siarad yr un iaith â nhw
Mae'r unig eiriau y maen nhw'n eu gwybod yn yr iaith leol yn ymwneud â rhyw
Dangos arwyddion (e.e. heintiau) o fod wedi cael rhyw heb ddiogelwch
Dangos arwyddion o fod wedi cael rhyw dan orfodaeth neu ryw treisgar
Tytiolaeth bod person wedi cael ei brynu a'i werthu
Grwpiau o fenywod dan reolaeth pobl eraill
Cadwch lygad am hysbysebion puteindai sy'n cynnig gwasanaethau gan fenywod o gefndir ethnig neu genedl arbennig, neu sy'n cynnig gwasanaethau i gleientiaid o gefndir ethnig neu genedl arbennig.

Camfanteisio Troseddol

Pobl sy'n cyflawni trosedd, e.e. cardotwyr, lladron siopau, lladron poced

Plant, pobl oedrannus neu ymfudwyr anabl sy'n begera mewn llefydd cyhoeddus ac ar drafndiaeth gyhoeddus
Plant sy'n cludo a/neu yn gwerthu cyffuriau anghyfreithlon
Namau corfforol sy'n edrych fel petaent wedi'u hachosi trwy anffurfiog (*mutilation*)
Plant o'r un genedl neu gefndir ethnig sy'n symud o gwmpas mewn grwpiau mawr gydag ychydig iawn o oedolion
Plant dan oed oedd ar eu pen eu hunain ac sydd wedi cael eu "darganfod" gan oedolyn o'r un genedl neu gefndir ethnig
Symud mewn grwpiau pan fyddant yn teithio ar drafndiaeth gyhoeddus
Rhan o grwpiau mawr o blant sydd â'r un oedolyn yn warcheidwad iddynt
Cael eu cosbi os nad ydynt yn casglu neu'n dwyn digon o bethau
Byw gydag aelodau eu gang
Byw, fel aelodau gang, gydag oedolion sydd ddim yn rhieni iddynt

Caethwasanaeth Domestig

Nodweddion posib pobl sydd wedi cael eu masnachu at ddiben caethwasanaeth domestig:

Byw gyda theulu
Ddim yn bwyta gyda gweddill y teulu
Dim lle preifat iddyn nhw'u hunain
Cysgu mewn lle anaddas neu le sy'n cael ei rannu ag eraill
Y cyflogwr yn rhoi gwybod eu bod ar goll er eu bod yn dal yn byw yn nhŷ'r cyflogwr
Anaml neu byth yn gadael y tŷ heb eu cyflogwr
Ddim ond yn cael sbarion i'w bwyta

Plant – Nodweddion posib plant sydd wedi'u masnachu:

Dim mynediad at eu rhieni neu eu gwarcheidwaid
Yn edrych yn ofnus ac yn ymddwyn mewn ffordd sydd ddim yn nodweddiadol o ymddygiad plant o'r oed hwnnw
Dim ffrindiau yr un oed â nhw y tu allan i'r gwaith
Dim mynediad at addysg
Dim amser i chwarae
Bwyta ar wahân i aelodau eraill y "teulu"
Ddim ond yn cael sbarion i'w bwyta
Gwneud gwaith sydd ddim yn addas i blant
Teithio heb gwmni
Teithio mewn grwpiau gyda phobl sydd ddim yn perthyn iddynt
Byw ar wahân i blant eraill, mewn llety o ansawdd gwael

Adran 1 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015: y drosedd o gaethwasiaeth, caethwasanaeth a llafur gorfodol

Pan fydd person yn dal person arall dan amodau caethwasiaeth neu gaethwasanaeth, neu'n gwneud i berson arall weithio dan orfodaeth. Bydd y person yn gwybod, neu dylai fod yn gwybod, bod y person arall yn cael ei ddal dan amodau caethwasiaeth neu gaethwasanaeth, neu'n cael ei orfodi i weithio.
Wrth asesu a oes trosedd wedi'i chyflawni, gellir ystyried amgylchiadau personol y dioddefwr, gan gynnwys unrhyw rai sy'n golygu bod yr unigolyn yn fwy bregus.
Nid yw cydsyniad unigolyn i ymddygiad yr honnir ei fod yn gyfystyr â chaethwasiaeth, caethwasanaeth neu lafur gorfodol yn golygu nad oes trosedd wedi'i chyflawni.
Mae llafur gorfodol yn cynnwys unrhyw waith neu wasanaethau a ddarperir gan y person, gan gynnwys unrhyw waith neu wasanaethau a ddarperir dan amgylchiadau sy'n golygu camfanteisio, er enghraifft unrhyw beth sy'n ymwneud â'r troseddau/ymddygiadau canlynol:
troseddau rhywiol (gan gynnwys tynnu lluniau anwedus o blant)
tynnu organau
defnyddio grym, bygythiadau neu ddichell i gael pobl i gyflawni gwasanaethau (e.e. begera neu ddwyn o bocedi)
cael plant a phobl fregus i gyflawni gwasanaethau

Diannod	6 mis o garchar a/neu ddirwy ddigifyngiad.
---------	--

Ditiad	carchar am oes
--------	----------------

Adran 2 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015: y drosedd o fasnachu pobl

Lle bydd person yn trefnu neu'n hwyluso taith i berson arall gyda'r bwriad y bydd camfanteisio'n digwydd i'r person hwnnw. Mae'n amherthnasol a yw'r dioddefwr wedi cytuno i deithio ai peidio.
Mae camfanteisio yn cynnwys:
caethwasiaeth, caethwasanaeth a llafur gorfodol
camfanteisio rhywiol
tynnu organau
defnyddio grym, bygythiadau neu ddichell i gael pobl i gyflawni gwasanaethau (e.e. begera neu ddwyn o bocedi)
cael plant a phobl fregus i gyflawni gwasanaethau

Diannod	6 mis o garchar a/neu ddirwy ddigifyngiad
---------	---

Ditiad	carchar am oes
--------	----------------

Adran 4 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015: y bwriad i gyflawni trosedd rhan 2, sef masnachu pobl

Unrhyw fwriad i gyflawni masnachu pobl
(h.y. darparu dogfennau ffug gyda'r bwriad y byddai'r dogfennau hynny'n cael eu defnyddio i hwyluso masnachu pobl)

Diannod	6 mis o garchar a/neu ddirwy ddigifyngiad.
---------	--

Ditiad	10 mlynedd o garchar neu garchar am oes (os yw'r drosedd yn cynnwys carcharu neu gipio)
--------	---